

**Dyddiad cyhoeddi:** 17 Mawrth 2021

### **Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

#### **Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

"Allwch chi roi dadansoddiad o'r canlynol i mi:

- Canran y trenau a oedd hyd at 5, 10 a 30 munud yn hwyr yn 2019 a 2020,
- Canran y trenau a gafodd eu canslo yn 2019 a 2020,
- Cyfanswm nifer y teithiau trên yn 2019 a 2020."

#### **Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Mae cyfanswm y teithiau ar drenau ar wasanaethau TrC ar gyfer 2019 a 2020 i'w gweld ar-lein drwy ddefnyddio Porth Data'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd – mae'r dudalen hafan ar gael yma: [Hafan | Porth Data ORR](#)

Mae'r data a ddangosir ar gyfer 2019 a 2020 wedi'i rannu'n gyfnodau rheilffyrdd fel a ganlyn:

2018-2019: Chwarter 4 – 8,074,387.87 o deithiau

2019-2020: Chwarter 1 – 8,259,906.27 o deithiau

2019-2020: Chwarter 2 – 8,335,547.08 o deithiau

2019-2020: Chwarter 3 – 8,488,515.70 o deithiau

2019-2020: Chwarter 4 – 6,751,443.52 o deithiau

2020-2021: Chwarter 1 – 343,828.77 o deithiau

2020-2021: Chwarter 2 – 2,112,334.38 o deithiau

2020-2021: Chwarter 3 – 1,706,639.62 o deithiau

O ganlyniad i gofnodi'r data hwn yn ystod y cyfnodau rheilffyrdd hyn, nid yw'r ffigurau ar wahân ar gyfer 2019 a 2020 wedi'u hynysu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen ganlynol y porth data: [Defnydd o reilffyrdd i deithwyr | Porth Data ORR](#) (rolwch i lawr i'r tabl yn dangos y graff teithiau a dewis Rheilffyrdd TrC).

Mae cyfoeth o wybodaeth am ystadegau Cwmnïau Gweithredu Trenau ar gael ar y porth data, gan gynnwys yr ystadegau diweddaraf am bob chwarter ac ystadegau allweddol ar

gyfer Cwmnïau Gweithredu Trenau unigol. Mae'r ystadegau allweddol diweddaraf ar gyfer TrC ar gael yma: [Ystadegau Allweddol Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru 2019-20 \(orr.gov.uk\)](https://www.orr.gov.uk)

Mae nifer y trenau a gafodd eu gohirio neu eu canslo ar gyfer y cyfnod a nodwyd i'w weld ar y daenlen sydd ynghlwm. Sylwch fod TrC yn gweithio gyda'r union ffigurau yn hytrach na chanrannau. Mae'r daenlen sydd wedi'i hatodi wedi'i fformatio yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, felly byddwch yn ymwybodol efallai y bydd angen i chi ehangu'r colofnau i ddatgelu penawdau llawn pob un.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

### **Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu [freedomofinformation@tfw.wales](mailto:freedomofinformation@tfw.wales). Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".